



FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

Mae canllawiau ar gael i'ch helpu i gwblhau'r Adroddiad hwn yn:
<http://learning.caerdydd.ac.uk/quality/review/external-examiners/reports/>.

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	R Alun Charles		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	Cynulliad Cenedlaethol Cymru		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn, gan gynnwys unrhyw adroddiadau ar gyfer cam y traethawd hir:	Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2014-15	Dyddiad yr Adroddiad:	20 Medi 2015

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Gallwch ymestyn y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein, ac ni ddylai gyfeirio at unrhyw fyfyrwr unigol nac aelodau o staff.**

1. Strwythur y Rhaglen

Mae Llawlyfr yr Arholwyr (2014-16) yn trafod pob agwedd ar y Cymhwyster Cenedlaethol yn effeithiol. Mae'n cynnig darlun clir o'r deilliannau a'r safonau a ddisgwylir. Mae'r ddogfen yn llawn gwybodaeth bwrpasol. Trefn y canolfannau yw cynnig y cwrs dros ddwy flynedd. Y farn yn gyffredinol yw bod hynny'n fwy cydnaws â natur y gwaith yn hytrach na chynnig y cwrs am flwyddyn.

Mae myfyrwyr yn dilyn pedwar modiwl trwy ddulliau dysgu cyfunol, sef hanner ar-lein a hanner mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb. Mae'r arholwr allanol wedi derbyn enghreifftiau o waith mewn dau fodiwl, sef:

Modiwl 1: Paratoi i Addysgu Cymraeg i Oedolion

Modiwl 2: Cymraeg i Oedolion: Dysgu ac Addysgu

2. Safonau Academaidd

MODIWL 1

PARATOI I ADDYSGU

Meicroddysgu

Mae cynnwys y modiwl, casgliadau'r arsylwyr, lefel y dyfarniad neu gymedr y marciau'n briodol. Mae'r modd y mae ambell ganolfan yn dangos wrth gynnig sylwadau beth sydd angen ei wneud i ennill marciau uwch yn help i annog myfyrwyr i anelu'n uwch ac i ymestyn eu hymdrechion. Mae hynny'n arfer dda.

MODIWL 2

DYSGU AC ADDYSGU

Mae'r safonau a gyrahaeddir a'r marciau a ddyfernir yn cydfynd ac yn briodol.

Yn y ddau fodiwl, mae gofyn i'r myfyrwyr hunan-werthuso ac mae'r rhai mwyaf addawol yn gwneud hyn yn effeithiol a thrylwyr ac yn codi pwyntiau sydd, o'u gwireddu, yn debygol o ddylanwadu ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu a chodi safonau, er enghraifft, defnydd o'r iaith darged wrth gyfarwyddo ac ati.

Mae'r ffurflenni arsylwi wedi'u cwblhau'n briodol gan y tiwtoriaid arsylwi ac mae'r camau gweithredu'n cynnig cymorth hynod o ddefnyddiol a phwrpasol.

ARSYLWI SESIYNAU ADDYSGU

Cafodd yr arholwr allanol y cyfle i arsylwi pedair gwrs o Gwrs Mynediad i Gwrs Uwch, gan gynnwys un sesiwn Cymraeg i'r Teulu:

- Gogledd Cymru (Yr Wyddgrug) – un wers
- Canolbarth Cymru (Aberhonddu) – un wers
- Caerdydd a Bro Morgannwg- dwy wers

Ni fu cyfle'r tro hwn i arsylwi gwrs / i yn Ne-Orllewin Cymru.

Llwyddodd pob un o'r myfyrwyr i greu naws hyfryd yn y dosbarthiadau. Gwelwyd defnydd helaeth o'r iaith darged a chyflwynwyd iaith berthnasol yn y sesiwn *Cymraeg i'r Teulu*. Roedd y sesiwn *Cymraeg i'r Teulu* wedi'i deilwra'n dda i anghenion rhieni a phlant mewn cylchoedd Meithrin.

Roedd pob un o'r myfyrwyr wedi paratoi'n drwyadl a chyflwyno ystod o weithgareddau addas a diddorol ar gyfer grŵp cyfan ac isgrwpiau. Gwnaed defnydd pwrpasol o'r bwrdd gwyn lle bo ar gael. Mae'r dysgwyr yn mwynhau'r sesiynau.

Roedd y model iaith a gyflwynwyd yn y dosbarth gan bob un o'r tiwtoriaid yn dda.

Roedd yr adborth wyneb-yn-wyneb ar derfyn y sesiynau o safon uchel. Fe'i cyflwynir mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Mae'r cyfle a roir i fyfyrwyr hunan-werthuso yn ystod yr adborth yn meithrin eu cyneddfau beirniadol ac yn arwain at drafodaeth bwrpasol ar wella perfformiad.

3. Y Broses Asesu

Ceir proses asesu glir a phriodol. Mae'r tiwtoriaid yn cadw'n ffyddlon at y broses hon. Mae'r trefniadau ar gyfer ailfarcio a chymedroli gwaith ysgrifenedig yn grymuso'r broses. Byddai cynnig cyfle i diwtoriaid gwahanol ganolfannau arsylwi'i gilydd yn cynnig adborth ar yr addysgu a'r dysgu o bryd i'w gilydd yn gyfraniad pellach at sicrhau cysondeb ymarfer.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Bu cynnydd yn ystod y flwyddyn academiaidd hon o ran trefnusrwydd a chyflwyniad y gwaith i'r arholwr allanol, gan gymryd y mydylau a arsylwyd hyd yma i ystyriaeth, a chynhaliwyd y safonau a ddisgwylir hyd yn hyn.

5. Gweithgarwch Paratoi / Ymsefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

Ddim yn berthnasol

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Mae'r safonau perfformiad yn cydfynd â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer ennill y cymhwyster.

Mae'r modd hynod drefnus y cyflwynwyd gwaith i'w safoni gan Ganolfan CiO y Gogledd a Chanolfan CiO y Canolbarth i'w ganmol yn fawr.

Mae'r ystod o aseiniadau ysgrifenedig a welwyd o leiaf yn foddhaol ac yn cynnwys rhai enghreifftiau da neu dda iawn. Mae dadansoddi'u gwaith a'i werthuso'n feirniadol ymhlith yr anhawsaf o'r tasgau sy'n wynebu'r myfyrwyr. Mae peth anwastadrwydd yn y safonau a gyrhaeddir yn y cyswllt hwn ond bod y mwyaf medrus yn llwyddo'n dda iawn.

Er bod ansawdd Cymraeg ysgrifenedig y myfyrwyr yn amrywio, mae'n gyffredinol foddhaol ac iaith ambell un yn arbennig o goeth a glân. Mae tiwtoriaid yn manteisio ar bob cyfle i loywi iaith.

Mae'r modd y cwblheir yr Adroddiad Marc Gradd (ee. Aseiniad 1 mewn perthynas â Microddysgu) wrth gynnig adborth ysgrifenedig yn enghraifft o arfer dda. Mae'n ddull cyfrifiadurol clir o asesu a chofnodi.

Mae'r gwaith yn cael ei asesu'n rheolaidd a theg. Mae'r gwaith cofnodi'n briodol ac yn llawn iawn mewn rhai achosion. Mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth ddefnyddiol a hynny'n eu helpu i wella'u sgiliau a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae peth amrywiaeth yn y dull o gofnodi marciau. Mewn rhai achosion, nodir marciau penodol, mewn eraill rhoir tic yn y man priodol mewn blwch a neilltuir ar gyfer ystod o farciau (ee.40-59%). Dylid cysoni'r drefn.

**Mae prosesau clir ar gyfer marcio ac ailfarcio a chymedroli gwaith ysgrifenedig. Mae lle i ledaenu hyn yng nghyd-destun addysgu a dysgu, gan roi cyfle i diwtoriaid arsylwi'i gilydd yn cynnig adborth. Mae'r marciau a gynigir iddynt yn adlewyrchu'u perfformiad yn deg,
Mae cydweithio a chyd-ddealltwriaeth rhwng y gwahanol ganolfannau yn hwyluso'r broses o sicrhau cysondeb ymarfer wrth bennu marciau. Mae'r defnydd o'r un ffurflenni adborth yn annog hyn.**

Mae cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10.6.2015 yn dangos fod y raddfa argadw a phresenoldeb yn dda a bod y pwyslais ar fentora a sesiynau adborth helaethach ar waith ysgrifenedig ac ymarfer dysgu o fudd ac yn talu ffordd.

Mae'r Cymhwyster Cenedlaethol yn gwneud cyfraniad clodwiw at feithrin a datblygu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Mae'n elfen allweddol o hyfforddi da yn y maes Cymraeg i Oedolion.

7. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol yn unig)

Amherthnasol

8. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Dylech gynnwys sylwadau priodol yn Adrannau 1-7 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Amherthnasol
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
8.1	A gawsoch ddigon o wybodaeth am gynnwys, deilliannau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
8.2	A gawsoch gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?	✓		
Papurau Arholiad Drafft				
8.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu at y dyfarniad terfynol?			✓
8.4	A oedd natur, rychwant a lefel y cwestiynau'n briodol?			✓
8.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?			✓
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
8.6	A gawsoch ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?			✓
8.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?			✓
8.8	A farciwyd y sgriptiau mewn ffordd a oedd yn eich galluogi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?			✓
8.9	A oeddech yn fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?			✓
8.10	Yn eich barn chi, a gawsoch gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr a oedd yn cyfrannu at yr asesiad terfynol?			✓
Gwaith Cwrs ac Asesiadau Ymarferol				
8.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.12	A gawsoch weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu asesiadau ymarferol?	✓		Ond hyderir y bydd cyfle i arsylwi gwersi ym mhob rhanbarth yn yr ail flwyddyn
8.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
8.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asessedig?	✓		
Archwiliadau Clinigol (os yn gymwys)				
8.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal asesiadau clinigol?			✓
Samplu Gwaith				
8.16	A gawsoch ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asessedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				
8.17	A oeddech yn gallu dod i gyfarfod y Bwrdd Arholi?	✓		

		✓	✘	Amherthnasol
8.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?	✓		
8.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?	✓		
Cyfarfod y Cyd-Fwrdd Arholi (os yn gymwys)				
8.20	A aethoch i gyfarfod Cyd-Fwrdd Arholi (h.y. un a gafodd ei gynnull i ystyried dyfarnu graddau Cydanrhydedd)?			✓
8.21	Os do, a gawsoch wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau Cydanrhydedd?			✓
8.22	A gynhaliwyd y Cyd-Fwrdd Arholi yn unol â'i reolau?			✓

Dylech ddychwelyd yr Adroddiad hwn, mewn fformat Microsoft Word yn ddelfrydol, drwy ebost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad ebost uchod neu ar ffurf copi caled i'r cyfeiriad isod:

Arholwyr Allanol, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0DE